



Papur Gwybodaeth Manwl

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru

Rhagfyr 2015

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei phumed Cyllideb Ddrafft, yr olaf yn rhyngor hwn y Cynulliad, ar 8 Rhagfyr 2015. Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016/17 ar gyfer meysydd cyfrifoldeb a ddatganolwyd, yn cynnwys iechyd, addysg a thai.

Mae'r cyhoeddiad yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr ar Wariant a gyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Tachwedd, fydd yn arwain at ostyngiad o 3.6% mewn termau real i gyllideb refeniw Llywodraeth Cymru dros y Senedd nesaf (2015-2020), tra bod cyllid cyfalaf yn cynyddu gan 4.7%. Gosodwyd cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17 ar £14.4bn; £13.1bn o gyllid refeniw a £1.3bn o gyfalaf.

Cynigion drafft ydynt ar hyn o bryd, ond cytunodd Llywodraeth Cymru ar becyn cyllideb dwy flynedd gyda Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer cyllidebau 2015/16 a 2016/17 sy'n golygu fod y gyllideb yn debygol o gael ei derbyn heb unrhyw newidiadau sylweddol. Cyflwynir y gyllideb derfynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w chymeradwyo ddydd Mawrth 1 Mawrth.

Fel rhan o ymrwymiad Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru i'n haelodau, rydym wedi gweithio i gasglu data o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, ystadegau allweddol a'n rhagolygon am effaith bosibl y gwahanol gyhoeddiadau ar sector tai Cymru. Rhoddir crynodeb islaw o'r mesurau a gyhoeddwyd yn y gyllideb sy'n uniongyrchol berthnasol i gymdeithasau tai, gyda manylion pellach drwy'r ddogfen.

Prif benawdau

- Cyhoeddi cyllideb Llywodraeth Cymru ar y "blaenoriaethau a gwasanaethau sydd bwysicaf i bobl Cymru"
- Diogelu cyllid y rhaglen Cefnogi Pobl ynghyd â rhaglenni trechu tlodi Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg
- Cynnydd o £5m mewn Grant Tai Cymdeithasol
- £260m o gyllid ychwanegol ar gyfer darpariaeth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, £30m ohono'n mynd i'r Gronfa Gofal Canolraddol
- Cynnydd bach yn y gyllideb iechyd cyhoeddus, diogelu gwasanaethau cymdeithasol
- £26.3m i gefnogi Cam 2 Rhaglen Cymorth Prynu Cymru



CYFALAF

Rhaglen	2015/16	2016/17	Cynnydd/Gostwng %
Grant Tai Cymdeithasol	£63.8m	£68.8m	+7.8%
Adfywio	£65.7m	£73.5m	+11.9%
Cymorth Prynu - Cymru	£71m (Cam Un)	£26.3m (Cam Dau)	- 62.9%

REFENIW

Rhaglen	2015/16	2016/17	Cynnydd/Gostwng %
Cefnogi Pobl	£124.4m	£124.4m	+/- 0%
Darparu Gwasanaeth Iechyd Gwladol	£5.78bn	£6.03bn	+ 4.3%
Cronfa Gofal Canolraddol	£20m	£50m	+150%
Atal Digartrefedd	£6.4m	£5.9m	-7.8%

1. Cynnydd o £5m yng nghyllideb Grant Tai Cymdeithasol

Y Grant Tai Cymdeithasol (SHG) yw'r grant gan Lywodraeth Cymru y mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ei ddefnyddio i ddarparu cartrefi fforddiadwy ychwanegol i bobl Cymru. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2016/17 ar £68.8m. Mae hyn yn gynnydd o £21.7m ar gynigion llinell sylfaen £47.1m Llywodraeth Cymru ac yn gynnydd o £5m ar gyfanswm cyllideb SHG o £63.8m a ddyrannwyd yn 2015/16, ynghyd â £10m ar gyfer tir fforddiadwy ar gyfer tai.

Effaith

Croesewir y cynnydd mewn cyllid a bydd yn galluogi cymdeithasau tai i barhau i ddarparu mwy o gartrefi fforddiadwy i helpu mynd i'r afael â'r argyfwng tai.

Dengys ffigurau'r Uned Ymchwil i Economi Cymru fod cymdeithasau tai yng Nghymru wedi darparu mwy na 7,600 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol yn nhymor presennol y Cynulliad, gyda 2,700 pellach ar y gweill yn 2015/16, ac mae'r sector ar y llwybr i ragori ar darged Llywodraeth Cymru o 10,000.

Fodd bynnag, mae lefelau Grant Tai Cymdeithasol wedi gostwng mewn blynyddoedd diweddar. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r achos dros fuddsoddi mewn tai cymdeithasol tra'n pwysleisio fod darparu mwy o



gartrefi yn dibynnu ar sicrwydd incwm i gymdeithasau tai drwy eu hincwm rhent. Rydym yn dal i ddisgwyl am gadarnhad o setliad rhent 2016/17, gyda chynnydd o CPI + 1.5% wedi'i gytuno'n flaenorol hyd at 2019 fel rhan o'r Cytundeb Cyflenwi Tai a lofnodwyd gan CHC a Llywodraeth Cymru.

Blwyddyn Ariannol	Gwariant Grant Tai Cymdeithasol ¹ (£m)	Nifer cartrefi ychwanegol a ddarparwyd ²
2011/12	96.9	1973
2012/13	101	1862
2013/14	83	1850
2014/15	70.7	1923
2015/16	63.8	2700 (arfaethedig)

Cadarnhaodd Jane Hutt y Gweinidog Cyllid ymrwymiad Llywodraeth Cymru i dai cymdeithasol yn ystod y ddadl ar y gyllideb ddrafft, gan dynnu sylw at y gwahaniaeth gyda Lloegr lle dywedodd fod grant tai cymdeithasol 'wedi mynd'.

2. Gwarchod y gyllideb Cefnogi Pobl



Yn dilyn ymgyrch blwyddyn o hyd 'Gadewch i ni barhau i Gefnogi Pobl', a gafodd ei rhedeg ar y cyd gan Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth Cymru, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid ddoe y byddai'r gyllideb ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl yn cael ei diogelu mewn termau ariannol. Mae hyn yn golygu y bydd y gyllideb ar gyfer y rhaglen yn parhau ar £124.4m fel yn 2015/16.

Effaith

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu tua 60,000 o bobl y flwyddyn yng Nghymru i gynnal tenantiaethau, osgoi digartrefedd a byw bywyd annibynnol.

Mae cyllid Cefnogi Pobl yn rhoi modd i gymdeithassau tai gynnal amrywiaeth o brosiectau ar gyfer budd rhai o aelodau mwyaf agored i niwed y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt. Cafodd y gyllideb ar

¹ D.S. Bydd y gwariant yn aml yn uwch na'r dyraniad gwreiddiol oherwydd cyllid ychwanegol a dderbynnir yn y flwyddyn.

² Yr Uned Ymchwil i Economi Cymru, 2015



gyfer Cefnogi Pobl ei thorri gan £10m yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015/16, a byddai unrhyw doriadau pellach mewn cyllid wedi rhoi pwysau difrifol ar y gwasanaethau cefnogi hollbwysig hyn. Bydd diogelu'r cyllid yn golygu y bydd cymdeithasau tai a darparwyr cymorth eraill yn parhau i fedru helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn eu cymunedau a rhoi cyfleoedd iddynt fyw bywyd annibynnol mewn llety sefydlog a gostwng digartrefedd.

3. £260m o gyllid ychwanegol i GIG Cymru

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid y byddai Llywodraeth Cymru yn dyrannu £260m pellach i GIG Cymru:

- £200m i gefnogi darpariaeth greiddiol y GIG
- £30m ar gyfer gwasanaethau i bobl hŷn ac iechyd meddwl
- £30m ar gyfer y Gronfa Gofal Ganolraddol

Effaith

Mae cynyddu'r cyllid ar gyfer y GIG yn golygu bod Llywodraeth Cymru bellach yn gwario 48% o'i chyllideb refeniw ar iechyd. Gyda'r gyllideb refeniw'n gostwng a mwy o bwysau ar wasanaethau iechyd, mae hyn yn debygol o gynyddu a doddi mwy o bwysau ar gyllidebau refeniw eraill. Fodd bynnag, mae £30m o'r cyllid ychwanegol wedi mwy na dyblu'r cyllid ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol ar gyfer 2016/7, ac mae cynnydd bach yn y gyllideb ar gyfer cyllid iechyd cyhoeddus.

Geilw maniffesto Cartrefi Cymunedol Cymru ar gyfer etholiadau 2016 i'r Cynulliad Cenedlaethol am bartneriaethau cryfach rhwng iechyd a thai, gyda £50m o gyllid ar gael, drwy'r adran tai, ar gyfer cynlluniau iechyd a thai.

4. Cyllid ar gyfer ail gam Cymorth Prynu - Cymru

Dyrannodd y gyllideb ddrafft £26.3m o gyllid trafodion ariannol i gefnogi Blwyddyn 1 ail gam Rhaglen Cymorth Prynu - Cymru. Derbyniodd y cam cyntaf £170m o gyllid a galluogi pobl i brynu cartref newydd ei adeiladu, gwerth hyd at £300,000, gyda chyn lleied â 5% o ernes, drwy gynllun rhannu ecwiti.

Effaith

Gallodd 1,200 o brynwyr tro cyntaf brynu cartref newydd drwy gam gyntaf rhaglen Cymorth Prynu - Cymru. Disgwylir i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi gyhoeddi manylion pellach ar Gam 2 y rhaglen maes o law.

Cefnogwyd cam cyntaf y rhaglen gan dros 170 o adeiladwyr tai a dywedodd Llywodraeth Cymru iddi gynyddu cyflenwad tai. Mae cefnogaeth bellach ar gyfer Cam 2 yn debygol o arwain at adeiladu mwy o



dai a mwy o gyfleoedd i gymdeithasau tai, ac i rai tenantiaid sy'n dymuno symud o dai cymdeithasol i fod yn berchenddeiliaid.

5. Cynyddu cyllid ar gyfer y Gronfa Gofal Canolraddol

Fel rhan o'r £260m o gyllid pellach ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, ychwanegwyd £30m ar y Gronfa Gofal Canolraddol, gan ddod â chyfanswm cyllideb 2015/17 i 350m. Mae'r cyllid ychwanegol yma'n dod â buddsoddiad yn y Gronfa yn ôl i'w lefel yn 2014/15 a'i nod yw cryfhau gofal sylfaenol a chymunedol, yn ogystal â helpu pobl hŷn ac agored i niwed i gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain, atal pobl rhag gorfod mynd i ysbyty os nad oes angen a hwyluso rhyddhad cynnar o ysbyty.

Effaith

Amcanion allweddol y Gronfa Gofal Canolraddol yw:

- Gwella cydlynu gofal rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol i ganolbwyntio ar ofal ataliol ac i osgoi pobl yn neilltuol yr henoed llesg rhag gorfod mynd i ysbyty yn ddiangen neu oedi cyn eu rhyddhau ar gyfer pobl hŷn;
- Hyrwyddo a chynyddu cyfleoedd byw annibynnol (yn cynnwys sicrhau mwy o ddarpariaeth o addasiadau cartref amserol) mewn ymateb i atgyfeiriadau gan y gwasanaethau iechyd a gofal;
- Cefnogi adferiad a iachau drwy gynyddu darpariaeth gwasanaethau ailalluogii (adref neu drwy ddarpariaeth gwelyau camu-lawr/ymadfer yn y gymuned.

Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn rhoi cyfleoedd i gymdeithasau tai a phartneriaid gryfhau'r gwaith a wnânt eisoes i wella iechyd y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt. Nododd Llywodraeth Cymru y disgwylir defnyddio'r gronfa hon yn llawn mewn partneriaeth gyda gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, yn defnyddio'r trefniadau partneriaeth newydd a gafodd eu rhoi yn eu lle drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

6. Cynyddu'r gyllideb gyfalaf ar gyfer adfywio

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau penodol ar gyllid adfywio na'r rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yng nghyllideb Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r gyllideb cyfalaf ar gyfer Adfywio wedi cynyddu o'i linell sylfaen yn 2016/17 o £60.7m i £73.5m, ac wedi cynyddu gan £7.8m o gyllideb 2015/16 o £65.7m.

Effaith

Rydym yn disgwyl manylion pellach am sut y dyrennir y gyllideb yma i brosiectau adfywio. Mae'n debyg y



bydd cyfleoedd sylweddol ar gyfer cymdeithasau tai drwy'r cynnydd yn y cyllid cyfalaf i barhau eu gwaith yn adfywio rhai o gymunedau mwyaf amddifadus Cymru.

7. Gofal a Thrwsio

Nid oedd cyllideb Llywodraeth Cymru yn cynnwys manylion cyllideb Gofal a Thrwsio ar gyfer 2016/17. Mae Cartrefi Cymunedol Cymru a Care & Repair Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r gyllideb hon a bydd yn hysbysu aelodau a rhanddeiliaid am unrhyw ddatblygiadau.

8. Gwarchod cyllid rhaglenni trechu tloidi Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg

Mae Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn ddwy o raglenni arweiniol Llywodraeth Cymru ym maes trechu tloidi.

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen gyda ffocws cymunedol sy'n anelu i liniaru tloidi parhaus. Mae'n gweithio mewn 52 'clwstwr' ar draws Cymru, gan ganolbwyntio ar y 10% o wardiau mwyaf amddifadus yn ôl Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae'n cysylltu â phreswylwyr, mudiadau cymunedol, busnesau ac asiantaethau allweddol eraill, gan ganolbwyntio ar gamau gweithredu yn arwain at gynaliadwyedd hirdymor a llesiant cymunedau.

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen ar gyfer teuluoedd gyda phlant dan 4 oed, sy'n byw yn ardaloedd amddifadus Cymru. Mae'r rhaglen yn darparu nifer o ymyriadau blynyddoedd cynnar, yn cynnwys gofal plant rhad ac am ddim a mwy o wasanaethau ymwelydd iechyd.

Effaith

Mae llawer o gymdeithasau tai yn gweithio mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Mae parhau'r cyllid i'r ddwy raglen yn rhoi cyfleoedd i gymdeithasau tai barhau i weithio gyda'u tenantiaid i drechu tloidi, gan barhau i gysylltu gyda'r cynlluniau hyn drwy ddangos y ffordd a darparu rhai gwasanaethau.

9. Gostwng cyllid ar gyfer atal digartrefedd

Mae'r gyllideb ar gyfer atal digartrefedd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru wedi gweld gostyngiad o £500,000 o'r llinell sylfaen flaenorol ar gyfer 2016/17 - gostyngiad o fwy na 7%.



Effaith

Bu pryderon yn y sector y byddai torri cyllid atal digartrefedd yn bygwth cyflwyno'r ddarpariaeth newydd ar ddigartrefedd a gynhwysir yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Fodd bynnag, mewn sesiwn gyda'r Pwyllgor Cyllid ar 9 Rhagfyr 2015, cadarnhaodd Jane Hutt y Gweinidog Cyllid nad oedd gostyngiad mewn gweithgaredd atal digartrefedd a bod y gostyngiad a ddangoswyd yn y gyllideb yn drosglwyddiad cyllideb na fyddai'n ailddigwydd.

Casgliadau

Galwodd maniffesto Cartrefi Cymunedol Cymru ar gyfer etholiadau 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Lywodraeth Cymru (http://chcymru.org.uk/uploads/general/Maniffesto_WEB.pdf) weithredu mewn chwe maes:

- Buddsoddi mewn seilwaith: Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer cartrefi newydd
- Gweithredu ar dir: Opsiwn cyntaf ar gyfer tai fforddiadwy
- Setliad rhent teg: ar gyfer tenantiaid a landlordiaid
- Gweithredu ar dai gwledig
- Diogelu cyllid Cefnogi Pobl
- Ymagwedd ddarbodus: cyllid ar gyfer iechyd a thai

Mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn gwneud cynnydd sylweddol ar nifer o'r blaenoriaethau hyn, ac rydym yn hynod falch i weld ymrwymiad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethau Cymru drwy eu buddsoddiad mewn tai cymdeithasol yn ogystal â darparu opsiynau ar gyfer y rhai sy'n dymuno prynu eu cartref eu hunain. Mae diogelu cyllid Cefnogi Pobl yn rhaff bywyd hanfodol ar gyfer llawer o bobl i gynnal tenantiaethau a hyrwyddo annibyniaeth mewn hinsawdd ariannol anodd.

Mae hefyd bryderon ar gyfer y sector o fewn y gyllideb; bydd y gostyngiad mewn cyllid atal digartrefedd, wrth ochr newidiadau a wnaed i lesiant gan Ddatganiad Hydref y Canghellor yn ei gwneud yn anos i Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau eraill sy'n gysylltiedig i gyflawni Deddf Tai (Cymru) 2014.

Mae'n flaenoriaeth i CHC weithio gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau'r setliad rhent a gytunwyd yn flaenorol a fydd yn rhoi sicrwydd hollbwysig ffrwd incwm cyson i barhau i ddarparu tai fforddiadwy a nifer o wasanaethau cymorth i helpu cynnal tenantiaeth a threchu tldi.

Yn y cyfnod cyn yr etholiad ym mis Mai, byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r targed tai fforddiadwy o 10,000 cartref, gyda'r sector cymdeithasau tai ar eu ffordd i ragori ar y targed yma. Byddwn hefyd yn parhau ein gwaith i hyrwyddo ein Maniffesto - *Sicrhau Cartrefi i Gymru* - i'r holl bleidiau gwleidyddol ac yn parhau i ymgyrchu dros *Cartrefi i Gymru* i sicrhau fod tai yn parhau'n flaenoriaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru yn dilyn etholiad Mai 2016.

